Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Goleg Catholig Dewi Sant
Heol Tŷ Gwyn
Pen-y-lan
Caerdydd
CF23 5QD

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Choleg Catholig Dewi Sant

Sefydlwyd Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant ym 1987 gan Archesgobaeth Caerdydd. Mae'n cynnig darpariaeth chweched dosbarth ar ei gampws, sydd wedi'i leoli yn ardal Pen-y-lan y ddinas. Mae'r coleg yn cyflogi tua 130 aelod o staff ac yn darparu ar gyfer tua 1,400 o ddysgwyr, y mae bron pob un ohonynt yn astudio amser llawn, ac maent rhwng 16 ac 19 mlwydd oed.

Mae'r coleg yn cynnig dewis o 30 o gyrsiau Safon Uwch i ddysgwyr, yn ogystal â chyrsiau galwedigaethol lefel 3 ar draws wyth pwnc. Mae cyrsiau UG a Safon Uwch yn cyfrif am 64% o gofrestriadau yn y coleg, gyda chyrsiau galwedigaethol lefel 3 yn cyfrif am 23% o gofrestriadau. Mae cyrsiau lefel 2 yn cyfrif am 10% o gofrestriadau, gyda chyrsiau lefel 1 yn cyfrif am 2% o gofrestriadau. Y meysydd pwnc sydd â'r gyfran fwyaf o ddarpariaeth yw gwyddoniaeth a mathemateg; gweinyddu busnes a'r gyfraith; y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi; a'r gwyddorau cymdeithasol.

Mae'r coleg yn recriwtio dysgwyr o ystod eang o ysgolion, gan gynnwys pedair ysgol uwchradd Gatholig bartner. Mae dysgwyr o ystod amrywiol o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol, ethnig a chrefyddol yn mynychu'r coleg. Mae tri deg pedwar y cant o ddysgwyr yn byw yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, fel y diffinnir gan gwintel cyntaf mynegai amddifadedd lluosog Cymru. Mae 26% o ddysgwyr yn byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru. Mae 36% o boblogaeth y coleg yn groenddu. Asiaidd neu maent o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Mae 39% o ddysgwyr y coleg yn dilyn y ffydd Gatholig.

Mae'r corff llywodraethol yn gweithio ar gynnig i ddiddymu'r coleg fel sefydliad addysg bellach dynodedig a'i ailsefydlu fel ysgol wirfoddol a gynorthwyir yn unol â'r rheoliadau ysgolion, o dan reolaeth Cyngor Dinas Caerdydd.

## Crynodeb

Mae'r pennaeth a'r uwch arweinwyr wedi rhoi diddordebau ac anghenion eu dysgwyr a'u staff wrth wraidd eu gwaith trwy sefydlu ethos 'arweinyddiaeth gweision' yn llwyddiannus.  Mae hyn yn ategu diwylliant datblygiadol o ddisgwyliadau uchel sy'n gefnogol ac yn cynnwys pob un o'r dysgwyr a'r aelodau staff.  Bu'r dull hwn yn llwyddiannus iawn o ran sicrhau safonau uchel cynaledig ar gyfer dysgwyr o bob cefndir.

At ei gilydd, mae dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau lefel 3 yn cyflawni graddau uchel iawn o gymharu â'u cyrhaeddiad blaenorol mewn TGAU.  Mewn gwersi, mae llawer o ddysgwyr yn dangos gwybodaeth gynhwysfawr, a gallant gymhwyso dysgu blaenorol i gyd-destunau newydd yn dda.  Mae llawer o ddysgwyr yn ystyried gwahanol safbwyntiau yn ofalus, gan eu galluogi i fod â rôl werthfawr mewn trafod a dadlau.  Mae llawer o ddysgwyr yn gweithio'n dda iawn yn annibynnol, ac mae mwyafrif ohonynt yn hynod effeithiol o ran gwerthuso eu gwaith eu hunain, a gwaith eu cyfoedion, i'w helpu i wella.

Mae'r coleg yn cynnig ystod helaeth o gyrsiau lefel 3, sy'n cynnwys pynciau nad ydynt ar gael yn eang mewn lleoedd eraill.  Mae'r rhaglen anrhydedd yn cynnig darpariaeth heriol ar gyfer dysgwyr mwy abl a thalentog i ychwanegu at eu gwersi pwnc.  Mae gan lawer o athrawon ddisgwyliadau uchel o ddysgwyr, ac maent yn cynllunio gwersi effeithiol sy'n herio dysgwyr ac yn eu galluogi i feistroli cysyniadau allweddol.  Mae llawer o athrawon yn defnyddio eu gwybodaeth am alluoedd ac anghenion dysgwyr unigol i ddarparu cymorth targedig o ansawdd uchel.

Mae dysgwyr yn mwynhau bywyd coleg ac yn gwerthfawrogi ei ethos amlddiwylliannol.  Maent yn cymryd rhan yn dda mewn prosiectau elusennol a chymunedol.  Mae llawer o ddysgwyr wedi datblygu dealltwriaeth wybodus o faterion byd-eang, crefyddol a moesol.  Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn uchelgeisiol ac yn dangos agwedd gadarnhaol a brwdfrydig tuag at eu dysgu.

Mae'r coleg yn gwerthuso'i waith mewn modd cynhwysfawr a hynod effeithiol.  Mae uwch arweinwyr yn myfyrio'n ofalus ar gryfderau a gwendidau'r coleg, gan eu galluogi i roi strategaethau gwella llwyddiannus ar waith.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Rhagorol** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Sefydlu trefniadau effeithiol ar gyfer cael gwybodaeth am anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr newydd gan bartneriaid allweddol

A2 Sicrhau bod gan yr holl ddysgwyr perthnasol lwybrau dilyniant priodol i'w helpu i wella ar eu graddau TGAU blaenorol mewn Saesneg a mathemateg

A3 Helpu pob un o'r dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru

A4 Gwneud yn siŵr fod materion yn gysylltiedig â phrydlondeb dysgwyr yn cael eu monitro ac yr eir i'r afael â nhw'n effeithiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaethau achos ar ei waith mewn perthynas â defnyddio'r model arweinyddiaeth gweision i feithrin diwylliant o gyflawniad uchel, a defnyddio dull wedi'i lywio gan dystiolaeth o wella addysgu, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Rhagorol**

Yn ystod eu cyfnod yn y coleg, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da iawn. Dangosant allu eithriadol o dda i weithio’n annibynnol ac mewn grwpiau i ddatblygu gwybodaeth a medrau gwerthfawr. Mae’r ymagwedd gynhyrchiol hon at eu hastudiaethau yn helpu dysgwyr i gyflawni graddau cryf iawn ar gyfer eu cymwysterau.

Bron ym mhob un o’r gwersi, mae llawer o ddysgwyr yn dangos gwybodaeth bynciol gynhwysfawr. Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda, a gall llawer ohonynt gymhwyso hyn i gyd-destunau newydd yn effeithiol iawn. Er enghraifft, mae dysgwyr cerddoriaeth Safon Uwch yn dadansoddi perfformwyr cyfoes o Gymru yn fedrus o ran harmoni, alaw, strwythur, rhythm ac arddull. Mae bron pob un o’r dysgwyr yn gwneud cynnydd cryf mewn gwersi, gyda mwyafrif ohonynt yn gwneud cynnydd da iawn yn eu dysgu. Mae llawer ohonynt yn arddangos medrau dadansoddol a datrys problemau cryf, gan eu galluogi i gynhyrchu gwaith o safon uchel. Er enghraifft, mewn gwersi cymdeithaseg UG, mae dysgwyr yn dadansoddi cyfraddau geni ac ystadegau ysgaru i bennu’r effaith ar strwythurau teuluol. Mae dysgwyr mathemateg UG yn cymathu cysyniadau newydd yn ymwneud â dosraniadau binomaidd yn gyflym, ac yn eu cysylltu’n dda â gwaith blaenorol ar driongl Pascal. Mewn pynciau perthnasol, mae llawer o ddysgwyr yn dangos medrau ymarferol cryf iawn. Er enghraifft, mae dysgwyr bioleg Safon Uwch yn defnyddio microsgopau yn fedrus i gael delweddau clir a chymryd mesuriadau manwl gywir. Trwy weithio’n hyderus ac yn gyfrifol gyda’i gilydd, gall dysgwyr ddehongli a dilyn arweiniad yn dda iawn. Mae llawer o ddysgwyr yn gweithio’n dda iawn yn annibynnol mewn gwersi, a’r tu allan iddynt. Gwnânt ddefnydd pwrpasol o’r ganolfan adnoddau dysgu ac ardaloedd astudio eraill ar draws y coleg i ymchwilio a chwblhau eu gwaith.

Mae bron pob un o’r dysgwyr yn gwrando’n astud ar eu hathrawon a’u cyfoedion. Mae llawer o ddysgwyr yn rhoi atebion hyderus ar lafar i gwestiynau athrawon pan gânt eu hannog i wneud hynny, ac mae lleiafrif ohonynt yn ymateb trwy roi cyfraniadau estynedig meddylgar. Mae ychydig o ddysgwyr yn darparu atebion ar lafar ac ysgrifenedig sy’n hynod ddatblygedig. Er enghraifft, mewn gwersi Ffrangeg, mae dysgwyr mwy abl yn defnyddio strwythurau brawddeg cymhleth i esbonio geirfa Ffrangeg yn dda iawn. Mae ychydig o ddysgwyr yn gofyn cwestiynau craff i’w tiwtoriaid a’u cyfoedion. Mae llawer o ddysgwyr yn ystyried gwahanol safbwyntiau yn ofalus, gan eu galluogi i gymryd rôl werthfawr mewn trafod a dadlau. Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp yn frwdfrydig, yn trafod syniadau, gan ddefnyddio geirfa sy’n benodol i bwnc a therminoleg dechnegol yn dda. Er enghraifft, mae dysgwyr yn trafod moeseg proffilio genetig mewn gwersi gwyddoniaeth gymhwysol, ac yn esbonio’r modd y caiff gwahanol effeithiau ffilm arswyd eu creu fel rhan o drafodaethau grŵp mewn gwersi astudiaethau’r cyfryngau. O bryd i’w gilydd, mae dysgwyr yn oedi rhag cyfrannu fel rhan o drafodaethau grŵp cyfan dan arweiniad yr athro.

Mae llawer o ddysgwyr yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig estynedig o safon uchel iawn, ac yn ysgrifennu â rhuglder gan ddefnyddio sillafu, atalnodi a gramadeg cywir. Maent yn cyflwyno dadleuon cytbwys yn seiliedig ar ddadansoddiadau craff. Er

enghraifft, mae dysgwyr Saesneg UG yn dadansoddi ac yn esbonio iaith, cyflwyniad ac ystyr cerddi yn eithriadol o dda. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio meini prawf asesu yn fedrus i ddatblygu eu dealltwriaeth, ac mae llawer ohonynt yn gwella eu gwaith ar ôl adborth yn rheolaidd. Mae mwyafrif ohonynt yn gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn hynod effeithiol i nodi cyfleoedd ar gyfer gwella. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyflwyno eu gwaith yn dda, ac yn cadw ffolderi gwaith trefnus sy'n helpu hwyluso eu dysgu a'u paratoadau ar gyfer arholiadau.

Gall llawer o ddysgwyr gymhwyso medrau rhifedd yn fedrus ar gyfer ystod o broblemau. Er enghraifft, mae dysgwyr economeg Safon Uwch yn cyfrifo cydbwysedd taliadau o wahanol ffrydiau incwm yn llwyddiannus, ac mae dysgwyr daearyddiaeth Safon Uwch yn dehongli plotiau data yn hyderus ac yn gywir. Mewn ychydig o wersi ar draws y coleg, nid yw dysgwyr yn datblygu eu medrau rhifedd yn ddigon da. Mewn gwersi ailsefyll mathemateg TGAU, mae gormod o ddysgwyr nad ydynt yn gwneud cynnydd digonol yn eu dysgu. Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau llythrennedd digidol yn briodol. Er enghraifft, mewn gwersi Bagloriaeth Cymru, mae dysgwyr o ystod o alluoedd yn datblygu eu medrau trin data digidol a chyflwyno yn dda.

Mae dysgwyr y nodwyd eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl yn datblygu a chymhwyso eu medrau iaith ymhellach trwy weithio tuag at Dystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r dysgwyr hyn yn sylweddoli manteision ehangach bod yn ddwyieithog, a'r cyfleoedd gyrfa estynedig y gall eu gallu yn y Gymraeg eu darparu. Fodd bynnag, ar draws y coleg, ychydig iawn o ddysgwyr sy'n defnyddio neu'n datblygu eu medrau Cymraeg.

At ei gilydd, mae dysgwyr yn cyflawni graddau rhagorol ar ddiwedd eu cyrsiau o gymharu â'u cyrhaeddiad blaenorol mewn TGAU. Mae cyrhaeddiad dysgwyr o ran graddau wedi gwella ar gyfer 2017-2018, ac mae'n gryf iawn ar gyfer cyrsiau Safon Uwch a chyrsiau galwedigaethol lefel 3 fel ei gilydd. Mae cyfran y dysgwyr Safon Uwch sy'n cyflawni graddau A*-A, A*-B ac A*-C yn uchel. Er enghraifft, mae llawer o ddysgwyr bioleg Safon Uwch yn cyflawni graddau uchel A*-B. Mae cyrhaeddiad o ran graddau uchel ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yn gryf iawn hefyd.

Llwyddodd dysgwyr i gwblhau eu prif gymwysterau ar gyfraddau uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y tair blynedd ddiwethaf. Mae cyfran gyson uchel o ddysgwyr sy'n astudio prif gyrsiau academaidd yn llwyddo i ennill eu cymwysterau. Mae dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau galwedigaethol wedi ennill eu prif gymwysterau'n llwyddiannus ar gyfraddau uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol am ddwy o'r tair blynedd ddiwethaf. Yn 2017-2018, disgynnodd cyfraddau cwblhau'n llwyddiannus ymhlith lleiafrif y dysgwyr sy'n dilyn prif gymwysterau fel eu bod ychydig islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Bu cyrhaeddiad graddau'r dysgwyr prin sy'n ailsefyll eu cymwysterau mathemateg neu Saesneg TGAU yn y coleg yn anghyson iawn dros y tair blynedd ddiwethaf.

Mae cyfran gyson uchel o ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn cwblhau eu prif gymwysterau yn llwyddiannus, ac ar lefel 3, maent yn cyflawni graddau da o gymharu â'u cyrhaeddiad blaenorol mewn TGAU. At ei gilydd, mae dysgwyr ethnig lleiafrifol yn ennill eu prif gymwysterau ar gyfraddau uchel gyda graddau cryf iawn o gymharu â'u cyrhaeddiad blaenorol. Mae cyfraddau llwyddiant yn y prif gymwysterau ar gyfer dysgwyr ag anawsterau ac anableddau dysgu wedi gwella i gyrraedd lefel uchel yn 2017-2018.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n gadael y coleg yn mynd ymlaen i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae llawer ohonynt yn symud ymlaen i gyrsiau mewn amrywiaeth o brifysgolion, gan gynnwys y rheiny sy'n hynod gystadleuol o ran eu trefniadau derbyn.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn mwynhau bywyd coleg ac yn cyfranogi'n dda yn eu gwersi. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos agwedd gadarnhaol a brwdfrydig at eu dysgu. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn hyderus ac ystyriol wrth ryngweithio â'u cyfoedion a'u hathrawon. Maent yn cydweithio'n dda, a gallant drafod a dadlau ynghylch materion cymhleth, fel cynhesu byd-eang a'r gosb eithaf, yn aeddfed.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn derbyn gofal yn y coleg, ac maent yn gwybod at bwy y gallant droi os bydd ganddynt unrhyw broblemau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ganmoliaethus iawn o'u tiwtoriaid personol a'u tiwtoriaid cwrs, ac maent yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwybod sut i aros yn ddiogel ar-lein ac maent yn ymwybodol o risgiau radicaleiddio ac eithafiaeth. Mae gan lawer o ddysgwyr ddealltwriaeth dda o sut i gadw'n iach, a phwysigrwydd hylendid da, diet a ffitrwydd.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwerthfawrogi ethos amlddiwylliannol y coleg, ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu parchu ni waeth beth fo'u ffydd, na'u cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymryd rhan yn dda mewn sesiynau tiwtorial bugeiliol ac un i un. Mae'r rhain yn mynd i'r afael â materion fel gwrthfwlio, iechyd a gwydnwch, yn ogystal â darparu adborth adeiladol rheolaidd i ddysgwyr ar eu cynnydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu medrau cyflogadwyedd gwerth chweil fel rhan o raglen diwtorial y coleg. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau entrepreneuraidd, sy'n eu helpu i ddatblygu a chyflwyno syniadau busnes fel rhan o'u hastudiaethau tuag at Dystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn falch o fod yn astudio yn y coleg. Maent yn uchelgeisiol ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol at ddysgu trwy ddiddordeb brwd yn eu gwaith a'u gallu i ddal ati i ganolbwyntio yn ystod y rhan fwyaf o wersi. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n dilyn rhaglenni astudio galwedigaethol yn cymryd rhan mewn lleoliadau profiad gwaith buddiol. Er enghraifft, mae un dysgwr ar leoliad gwaith gyda chwmni hedfan i helpu gwireddu ei huchelgais i fod yn beilot. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddysgwyr yn cyrraedd eu gwersi'n brydlon. Nid yw staff yn cofnodi materion prydlondeb yn gyson, ac o ganlyniad, nid eir i'r afael â nhw'n rheolaidd fel rhan o drefniadau tiwtorial dysgwyr.

Caiff bron pob un o'r dysgwyr eu cynnwys mewn ethol eu cyfoedion fel cynrychiolwyr dosbarth. Mae'r cynrychiolwyr hyn yn arwain sesiynau defnyddiol o ran llais y dysgwr bob hanner tymor i gasglu barn dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo y gwrandewir ar eu barn, a bod eu barn yn cael ei gwerthfawrogi, a bod staff y coleg yn ymateb i unrhyw faterion a godir. Er enghraifft, gofynnodd dysgwyr am gyfleoedd cynyddol ar gyfer cyfarfodydd un i un buddiol gyda'u tiwtoriaid bugeiliol. I ymateb i hynny, datblygodd staff a dysgwyr raglen fentora ar y cyd, a chafodd y rhaglen groeso da. Lansiwyd y rhaglen ym mis Medi 2018.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn prosiectau elusennol neu gymunedol. Er enghraifft, maent yn trefnu sioeau ffasiwn i godi arian ar gyfer

elusennau amrywiol, ac yn cynllunio diwrnodau chwaraeon ar gyfer ysgolion cynradd Catholig lleol. Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn rhaglen gyfoethogi fuddiol sy'n darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd iddynt ymgymryd â phrofiadau newydd. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglen gyfnewid ag ysgol yn Yr Almaen, diwrnodau encilio, a chlwb gwyddbwyll, yn ogystal â rhaglenni paratoi meysydd pwnc arbenigol ar gyfer y gyfraith a meddygaeth.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cymryd rhan yn rhaglen addysg fyfyriol y coleg. Mae'r rhaglen hon yn helpu dysgwyr i ddatblygu goddefgarwch, gwydnwch a synnwyr cryf o gyfrifoldeb. Mae llawer o ddysgwyr wedi datblygu dealltwriaeth werthfawr o faterion moesegol, byd-eang, crefyddol a moesol. Maent yn parchu amrywiaeth ac yn cynorthwyo eu cyd-ddysgwyr yn dda.

## Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae gan bron bob un o'r athrawon wybodaeth bynciol gref, ac maent yn sefydlu perthnasoedd gweithio effeithiol gyda dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio canmoliaeth yn dda i gymell dysgwyr. Mae hyn yn cyfrannu at amgylchedd dysgu ymddiriedus a chefnogol. Mae llawer o athrawon yn sefydlu diwylliant o ddisgwyliadau uchel yn eu hystafelloedd dosbarth. Maent yn cynllunio gwersi effeithiol gyda nodau pwrpasol sy'n herio dysgwyr ac yn eu galluogi i feistroli cysyniadau allweddol. Maent yn trefnu tasgau'n ofalus i helpu dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau'n gynyddol. Mae'r athrawon hyn yn darparu adnoddau ac arddangosiadau o ansawdd uchel ar gyfer dysgwyr. Er enghraifft, mewn gwersi astudiaethau'r cyfryngau, mae athrawon yn modelu proses dadansoddi gwefan newyddion yn feirniadol yn wych.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio eu gwybodaeth am alluoedd ac anghenion dysgwyr unigol i ddarparu cymorth targedig effeithiol. Er enghraifft, mewn ieithoedd tramor modern, mae athrawon yn defnyddio dealltwriaeth gadarn o gynnydd dysgwyr unigol yn y medrau iaith ar wahân i dargedu cymorth yn llwyddiannus. Mae ychydig o athrawon yn meithrin dealltwriaeth drylwyr o gysyniadau allweddol ymhlith dysgwyr, a'r hyder i fynegi eu safbwyntiau a herio rhagdybiaethau. Mae'r athrawon hyn yn canolbwyntio'n helaeth ar ddefnyddio medrau llythrennedd lefel uwch. Er enghraifft, mae athrawon addysg gorfforol yn strwythuro gwersi'n fedrus iawn i ddatblygu medrau cyfathrebu dysgwyr trwy ddefnyddio 'grwpiau arbenigol' i drafod y berthynas rhwng chwaraeon a gwleidyddiaeth.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio holi yn effeithiol i wirio gwybodaeth dysgwyr ac atgyfnerthu eu dealltwriaeth. Mae ychydig o athrawon yn defnyddio holi yn fedrus iawn i ddyfnhau atebion. Yn yr achosion hyn, maent yn ennyn chwilfrydedd ac yn annog dysgwyr i feddwl am ddehongliadau amgen, a herio safbwyntiau'r dysgwyr eraill yn y grŵp.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu adborth llafar buddiol mewn gwersi. Mae llawer ohonynt yn darparu adborth ysgrifenedig defnyddiol ac adeiladol sy'n cynnwys sylw priodol i sillafu, atalnodi a gramadeg. Mae llawer o athrawon yn ymgorffori asesu cymheiriaid hynod effeithiol yn eu gwersi. Yn yr achosion hyn, caiff dysgwyr eu cynorthwyo'n dda i werthuso gwaith ei gilydd yn fedrus. Er enghraifft, mewn gwersi celf a drama, mae dysgwyr yn myfyrio'n rheolaidd ar ansawdd gwaith ymarferol gan ddefnyddio meini prawf asesu i arwain eu gwerthusiadau.

Nid yw ychydig o athrawon yn rhoi digon o gyfle i ddysgwyr drafod a dadlau ynghylch materion mewn grwpiau neu barau. Maent yn darparu gormod o wybodaeth neu'n treulio gormod o amser yn arwain trafodaethau. Nid ydynt yn defnyddio holi ar lefel uwch yn ddigonol i herio canfyddiadau neu annog gwrth-ddadleuon.

Mae gan y coleg ddull effeithiol o gynllunio'r cwricwlwm sy'n cael ei lywio gan ddealltwriaeth gadarn o anghenion y farchnad lafur, dyheadau dysgwyr, a gofynion prifysgol. Mae hyn wedi arwain at ystod eang o gyrsiau lefel 3, sy'n cynnwys pynciau nad ydynt ar gael yn eang mewn lleoedd eraill, fel ieithoedd tramor modern, troseddeg a'r gwyddorau meddygol. Mae ystod briodol o bynciau galwedigaethol cyffredinol ar lefel 2 a lefel 3 yn darparu dewisiadau amgen gwerth chweil ar gyfer dysgwyr i astudiaethau Safon Uwch.

Mae rhaglen anrhydedd y coleg ar gyfer dysgwyr mwy abl a thalentog yn cynnig darpariaeth ysgogol a heriol sy'n galluogi'r dysgwyr hyn i ddatblygu eu medrau mewn meddwl beirniadol ac athronyddol. Mae hyn yn eu helpu i baratoi ar gyfer y brifysgol yn dda iawn.

Mae'r coleg yn darparu ystod eang o weithgareddau menter ar gyfer dysgwyr i ddatblygu eu medrau entrepreneuraidd a chyflogadwyedd. Er enghraifft, mae gweithgareddau'r 'diwrnod medrau menter' a'r 'wythnos menter fyd-eang' yn cynnwys dysgwyr yn rhyngweithio ag entrepreneuriaid lleol a chenedlaethol. Mae dysgwyr sydd ag uchelgais i fynd ymlaen i brifysgol i astudio meddygaeth neu'r gyfraith yn elwa ar gyfleoedd gwerthfawr i siarad â gweithwyr proffesiynol ac academyddion yn y meysydd hyn. Mae'r coleg yn darparu cyfleoedd buddiol o ran profiad gwaith ac addysg yn gysylltiedig â gwaith ar gyfer dysgwyr ar gyrsiau galwedigaethol. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae cyfleoedd i ddysgwyr Safon Uwch gymryd rhan mewn lleoliadau profiad gwaith yn gyfyngedig.

Mae'r coleg yn darparu ystod gynhwysfawr o ddewisiadau cyfoethogi, gan gynnwys chwaraeon, hobïau, gweithgareddau diwylliannol ac academaidd. Caiff dysgwyr gyfleoedd priodol i gymryd rhan mewn cystadlaethau cenedlaethol sy'n ychwanegu at eu hastudiaethau.

Mae'r coleg wedi dechrau rhoi fframwaith llythrennedd digidol pwrpasol ar waith i sicrhau bod yr holl athrawon yn gallu darparu'r medrau digidol i ddysgwyr sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth neu astudio pellach. Mae gan y coleg strategaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr, ond mewn ychydig o bynciau, mae athrawon yn colli cyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd dysgwyr. Fel rhan o'r strategaeth hon, mae'r coleg yn darparu sesiynau gweithdy targedig ar gyfer llythrennedd a rhifedd a dosbarthiadau ailsefyll TGAU mewn Saesneg a mathemateg. Ar bob rhaglen lefel 2, cynhelir gwersi medrau dynodedig i gefnogi dilyniant yn y meysydd hyn. Fodd bynnag, nid yw darpariaeth mathemateg TGAU yn mynd i'r afael ag anghenion penodol gwahanol alluoedd dysgwyr yn ddigon da.

Mae ychydig o feysydd dysgu yn cynnig cyfleoedd priodol i ddysgwyr astudio agweddau ar ddiwylliant, cymdeithas a threftadaeth Cymru. Mae'r coleg yn darparu cymorth bugeiliol cyfrwng Cymraeg a sesiynau Bagloriaeth Cymru i'r dysgwyr prin iawn a oedd yn mynychu ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg o'r blaen. Gall ychydig o ddysgwyr sy'n dilyn rhaglenni galwedigaethol ddatblygu eu gallu yn y

Gymraeg trwy raglen ‘Iaith ar Waith’ y coleg. Fodd bynnag, y tu allan i’r pynciau hyn, nid yw profiadau dysgu sy’n adlewyrchu diwylliant Cymru a’r Gymraeg wedi’u datblygu’n ddigonol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan y coleg system effeithiol i fonitro presenoldeb, cynnydd ac ymddygiad myfyrwyr. Mae’r drefn o ran gosod targedau a hunanfyfyrio yn gryf ar draws y coleg, ac mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn glir ynglŷn â’r cynnydd a wnânt. Fodd bynnag, er bod presenoldeb yn cael ei fonitro’n agos, nid yw staff yn monitro a herio prydlondeb yn ddigon da.

Yn ddiweddar, mae’r coleg wedi cyflwyno system fentora newydd fel rhan o drefniadau tiwtorial bugeiliol. Mae hyn yn golygu y gellir darparu cymorth un i un personoledig i bob dysgwr. Mae canolfan cymorth dysgu a thîm lles y coleg yn darparu ystod werthfawr o gymorth i helpu dysgwyr i oresgyn rhwystrau rhag dysgu. Mae staff bugeiliol a staff addysgu yn gweithio’n dda gyda’r timau hyn. Mae dysgwyr y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn cael cymorth defnyddiol i ddatblygu eu Saesneg ysgrifenedig a llafar gan staff yn y ganolfan cymorth dysgu. Mae’r coleg wedi nodi cynnydd yn nifer y dysgwyr ag anghenion iechyd meddwl a lles emosiynol, ac mae wedi cyflogi dau gwnselydd rhan-amser i ddarparu cymorth arbenigol. Fodd bynnag, mae rhestrau aros am apwyntiadau weithiau’n rhy hir.

Caiff dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig eu cynorthwyo’n dda. Mae staff yn olrhain cynnydd yn rheolaidd i sicrhau bod y cymorth a ddarperir yn galluogi’r dysgwyr hyn i wneud cynnydd da iawn. Fodd bynnag, pan nad oes gan ddysgwyr ddatganiad ffurfiol blaenorol o angen addysgol, ni chaiff trefniadau ag ysgolion partner i gasglu gwybodaeth am anghenion dysgu unigol eu ffurfioli neu nid ydynt yn gyson effeithiol.

Mae’r coleg yn rhoi gwybodaeth a chyngor defnyddiol i ddysgwyr am ddarpariaeth sy’n eu galluogi i wneud dewisiadau gwybodus. Mae’n cynnal digwyddiadau agored, sesiynau rhagflas ac yn cynnal cyfweliadau ar gyfer darpar ddysgwyr ar ddydd Sadwrn. Caiff dysgwyr gyfnod ymsefydlu cynhwysfawr, ac maent yn cael llyfryn arweiniad cymorth dysgu defnyddiol, sy’n esbonio’n glir ystod y cymorth sydd ar gael.

Yn 2017-2018, nododd dysgwyr fod llai na hanner y dysgwyr yn teimlo bod y coleg wedi eu helpu i ddeall dewisiadau am fyw yn iach. Ymatebodd y coleg yn effeithiol i wella’r ffocws ar fyw yn iach. Erbyn hyn, mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo eu bod yn wybodus am y testun hwn.

Mae rhaglen anrhydedd y coleg a chyfranogi yn rhwydwaith rhanbarthol Seren yn helpu dysgwyr mwy abl a thalentog i ddatblygu medrau meddwl ac arwain uwch, gan wella eu rhagolygon o ddilyn cyrsiau addysg uwch. Mae mentoriaid, staff bugeiliol a staff addysgu yn darparu cymorth effeithiol i’r dysgwyr niferus sy’n anelu at fynd ymlaen i brifysgol. Maent yn rhoi gwybodaeth fuddiol i’r dysgwyr hyn am sefydliadau a chynnwys pynciau, ac yn eu cynghori ar sut i ymchwilio i’w dewisiadau yn fanylach. Mae’r rhan fwyaf o’r dysgwyr hyn yn wybodus am beth fydd eu cam dilyniant nesaf, ac o ganlyniad, maent yn trosglwyddo’n llwyddiannus i’r cam nesaf mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae’r coleg yn cynnal digwyddiadau i hyrwyddo llwybrau dilyniant dysgu yn y gwaith, gan gynnwys prentisiaethau uwch, ond ychydig o ddysgwyr yn unig sy’n ymwybodol o ystod lawn y cyfleoedd dilyniant sydd ar gael iddynt.

Mae gan y coleg ethos amlddiwylliannol cryf, ac mae tiwtoriaid a staff yn llwyddo i annog dysgwyr i weithio gyda'i gilydd mewn sesiynau mewn modd lle maent yn parchu ei gilydd, ac yn gefnogol i'w gilydd. Mae staff bugeiliol yn helpu dysgwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth o ddemocratiaeth, rheol y gyfraith, rhyddid yr unigolyn, parch a goddefgarwch ar y ddwy ochr i wahanol fathau o ffydd a chredoau. Gall dysgwyr esbonio sut maent yn arfer y gwerthoedd hyn fel rhan o fywyd coleg. Ceir ychydig o enghreifftiau hefyd o ddysgwyr yn sefydlu grwpiau cymorth cydfuddiannol yn y coleg.

Mae'r coleg yn galluogi bron pob un o'r dysgwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli cymunedol gwerth chweil. Er enghraifft, mae dysgwyr yn datblygu medrau hyfforddi pêl-droed a rygbi y maent yn eu defnyddio i gynorthwyo ysgolion a grwpiau ieuenctid lleol.

Mae trefniadau'r coleg ar gyfer diogelu dysgwyr, gan gynnwys ei ddyletswydd i amddiffyn pobl ifanc rhag radicaleiddio ac eithafiaeth, yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae'r pennaeth a'r uwch arweinwyr wedi sefydlu ethos, yn seiliedig ar y ffydd Gatholig, sy'n groesawgar a chynhwysol i ddysgwyr o bob ffydd a chefndir. Maent yn uchelgeisiol ar gyfer y coleg a'i ddysgwyr, ac yn gosod disgwyliadau uchel. Bu'r ymagwedd hon yn hynod effeithiol o ran hyrwyddo amgylchedd aml-ffydd ac amlddiwylliannol cytûn, ac o ran sicrhau safonau uchel cynaledig ar gyfer dysgwyr.

Mae arweinwyr, athrawon a staff ar bob lefel yn ymwybodol o werthoedd y coleg ac yn cymhwyso ei egwyddorion 'arweinyddiaeth gweision' unigryw i'w rolau eu hunain yn feddylgar ac yn effeithiol. Mae'r egwyddorion hyn yn cynnwys darparu arweinyddiaeth hynod gefnogol a hygyrch sy'n blaenoriaethu diddordebau ac anghenion dysgwyr a chyd-aelodau staff.

Caiff y pennaeth ei gynorthwyo'n dda gan gorff llywodraethol sy'n meddu ar ystod eang o arbenigedd. Mae llywodraethwyr yn wybodus am berfformiad y coleg. Mae ganddynt rôl weithredol mewn ffurfio'i gyfeiriad strategol a darparu cyngor a her briodol.

Mae gan uwch arweinwyr rolau a chyfrifoldebau diffiniedig ac maent yn cyflawni eu swyddogaethau yn effeithiol iawn. Maent yn defnyddio prosesau trylwyr ar gyfer gwneud penderfyniadau, ac yn gwneud gwerthusiadau gwerth chweil o effaith eu gweithredoedd. Er enghraifft, mae gwelliannau diweddar i'r cylch sicrhau ansawdd a hunanwerthuso yn cynnwys gwerthusiadau hynod ddefnyddiol o effaith ymyriadau ar gyrsiau nad ydynt yn perfformio'n gyson uchel eto.

At ei gilydd, mae prosesau hunanwerthuso'r coleg yn gynhwysfawr a thrylwyr. Maent yn ystyried ystod eang o wybodaeth ac yn defnyddio meini prawf wedi'u cynllunio'n dda i lunio barnau cadarn. Mae uwch arweinwyr yn gwerthuso effeithiolrwydd y coleg mewn modd tryloyw a hunanfeirniadol. Mae gan arweinwyr canol gyfrifoldebau priodol o ran rheoli llinell a sicrhau ansawdd. Mae ganddynt rôl ragweithiol mewn monitro a gwella ansawdd y ddarpariaeth yn eu hadrannau, ac maent yn cynnal gwerthusiadau defnyddiol parhaus o berfformiad. Maent yn elwa ar gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu profiad arwain eu hunain, ac yn cyfrannu at ddatblygiadau strategol trwy gyfarfodydd uwch dîm arweinyddiaeth estynedig y coleg.

Mae gan y coleg drefniadau ansawdd a hunanwerthuso clir ar bob lefel sy’n helpu llywio cynlluniau gwella manwl ac effeithiol. Mae dwy adeg myfyrio ddefnyddiol yn galluogi timau ac arweinwyr cyrsiau i fonitro gwaith gwella a nodi cyrsiau sy’n perfformio’n gyson uchel, ac i’r gwrthwyneb. Mae strategaethau ymyrraeth defnyddiol ar waith i wella’r cyrsiau ‘nad ydynt eto’n gyson’. Mae arweinwyr yn gwerthuso effaith y strategaethau hyn yn effeithiol, ac mae deilliannau i ddysgwyr ar lawer o gyrsiau wedi gwella. At ei gilydd, mae dull arwain cydlynol y coleg ar draws pob lefel wedi helpu athrawon a dysgwyr i gynnal deilliannau cryf iawn dros gyfnod.

Mae’r coleg yn defnyddio ystod gynhwysfawr o ddulliau i werthuso ansawdd yr addysgu a’r dysgu, gan gynnwys arsylwadau gwersi traddodiadol, craffu ar waith dysgwyr a recordiadau fideo o sesiynau addysgu. Caiff y canlyniadau o’r prosesau hyn eu gwerthuso yn unol â chwe egwyddor addysgegol y coleg, sef her, esbonio, modelu, arfer, adborth, a holi. Mae barnau’n seiliedig ar feini prawf clir sy’n cael eu cymhwyso’n wrthrychol. Mae’r broses arsylwi addysgu a dysgu yn nodi cryfderau a meysydd i’w gwella manwl mewn addysgu.

Mae’r coleg yn defnyddio dysgu proffesiynol â ffocws da, yn seiliedig ar ei egwyddorion addysgegol, i wella addysgu a dysgu. Mae hyn yn cynnwys trafodaethau ar draws y coleg am addysgu a dysgu a defnydd arloesol o dechnoleg ddigidol, sy’n galluogi athrawon i rannu eu harfer ag uwch arweinwyr ac â’i gilydd. Er enghraifft, mae’r coleg wedi datblygu ‘arsyllfa ddysgu’ ar-lein o adnoddau datblygu addysgu, gan gynnwys fideo o arfer effeithiol ar draws y coleg. Mae’r trefniadau hyn yn cynorthwyo athrawon i gydweithio i wella eu harfer yn barhaus, a chynnal deilliannau uchel ar gyfer dysgwyr.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau’n dda. Mae gan y coleg gyllid sefydlog, ac mae ganddo warged bach yn gyson. Mae arweinwyr yn gwneud penderfyniadau cyfrifol yn ymwneud â gwariant ar sail ystod o wybodaeth a ystyriwyd yn ofalus, a chan gadw at flaenoriaethau’r coleg. Mae gan y coleg raglen dreigl addas o ailwampio ac adnewyddu offer. Mae’r ystâd yn addas at ei diben ac yn ffurfio amgylchedd dysgu ysgogol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/07/2019